Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Cwm Derwen
# Beech Grove
# Oakdale
# Blackwood
# NP12 0JL

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JWneu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 02/09/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Cwm Derwen ym mhentref Oakdale ger y Coed Duon ac fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Caerffili. Mae dalgylch yr ysgol yn eang iawn sy'n cynnwys pentrefi cyfagos.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ddwyieithog ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Cymraeg yw prif gyfrwng y dysgu. Oddeutu 4% o'r disgyblion ddaw o gartrefi ble siaredir Cymraeg. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig lleiafrifol.

Derbynnir plant i'r dosbarth meithrin, yn llawn-amser ym mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Yn ystod yr arolygiad, roedd 229 o blant ar gofrestr yr ysgol. Mae nifer y disgyblion wedi cynyddu'n sylweddol ers yr arolygiad diwethaf.

Mae cyfartaledd treigl tair blynedd ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim oddeutu 14% sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 21%.

Mae 22% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol. Mae'r ffigurau hyn ychydig yn uwch na chanrannau Cymru. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Fe gynhelir dau ddosbarth gan yr awdurdod lleol yn yr ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu dwys. Dônt o ardal eang, sef y dalgylch sy'n bwydo Ysgol Gyfun Cwm Rhymni.

Penodwyd y pennaeth ym mis Medi 2013. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ebrill 2010.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymraeg Cwm Derwen yn 2014-2015 yw £3,462. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Caerffili yw £5,106 a'r lleiafswm yw £2,645. Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Cwm Derwen yn y 14eg safle allan o'r 75 ysgol gynradd yngNghaerffili o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol yn dda oherwydd:

- Bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gwersi ac yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol
- Bod rhan fwyaf y disgyblion yn hyderus ddwyieithog erbyn diwedd cyfnod allweddol 2
- Bod safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth rhan fwyaf y disgyblion yn dda a dangosant gwrteisi, gofal a pharch tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr
- Bod safon yr addysgu yn gyson dda
- Bod profiadau dysgu cyfoethog ar gael i'r holl ddisgyblion
- Bod iddi ethos teuluol, gofalgar a chroesawgar lle mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- Bod gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o'rcryfderau a'r meysydd i'w datblygu
- Bod holl aelodau'r staff yn cydweithio'n effeithiol fel tîm
- Bod aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i fywyd a gwaith yr ysgol ac yn dechrau herio adwyn arweinwyr i gyfrif am ei pherfformiad
- Bod y cynllun datblygu yn canolbwyntio'n glir ar godi safonau
- Bod ystod dda o bartneriaethau yn bodoli, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth a chyflawniad disgyblion

## Argymhellion

A1 Sicrhau cysondeb yn ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad gwaith y disgyblion ar draws yr ysgol

A2 Gwella presenoldeb

A3 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion yng ngyfnod allweddol 2 gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain er mwyn iddynt ddatblygu'n ddysgwyr mwy annibynnol

A4 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ar draws yr ysgol ddatblygu eu medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)

A5 Datblygu ymhellach rôl y llywodraethwyr i fonitro a dwyn yr ysgol i gyfrif

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.Byddyr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae canlyniadau asesiadau sylfaen disgyblion ar fynediad i'r ysgol yn dangos bod gan fwyafrif fedrau sy'n briodol i'w hoed, ac eithrio yn y Gymraeg ble mae'r iaith yn newydd i ran fwyaf ohonynt. Fodd bynnag, mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn. Mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys rhai sy'n derbyn cymorth ychwanegolyn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn cyfranogi'n llawn yng ngweithgareddau'r dosbarth, ac yn adeiladu'n dda ar eu profiadau dysgu blaenorol.

Mae medrau llafaredd rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n dda,ac erbyn diwedd blwyddyn 2, maent yn siarad yn gynyddol gywir a hyderus. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn ymateb yn eiddgar i gwestiynau gan athrawon a gall llawer yng nghyfnod allweddol 2 gynnal sgyrsiau estynedig ac ymateb yn bositif i gwestiynau digon heriol. Mae llawer yn barod i gyfrannu i drafodaethau yn hyderus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae medrau llafar Saesneg rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n effeithiol.

Mae safon darllen y rhan fwyaf o'r disgyblion yn y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen ac ofewn y ddwy iaith yng nghyfnod allweddol 2 yn briodol i'w hoed a'u gallu. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r disgyblion yn gyfarwydd ag ystod o strategaethau darllen acyn gallu eu defnyddio'n briodol i wneud synnwyr o brint. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mae'rrhan fwyaf yn deall yr hyn y maent yn ei ddarllen gan fynegi barn a thrafod cynnwysllyfrau ar lefel syml. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yndarllen ystod eang o destunau gyda rhuglder ac yn gallu ymateb yn ystyrlon i'rcynnwys.

Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd cadarn wrthddatblygu eu medrau ysgrifennu. Gallant ffurfio amrywiaeth o frawddegau, mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o eirfa ac maent yn dechrau defnyddio atalnodisylfaenol yn eu gwaith yn gywir. Gall rhan fwyaf y disgyblion ysgrifennu at wahanol bwrpasau yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd dayn eu medrau ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Dengys eu gwaith bod ganddynt afaelgynyddol o gywirdeb ac atalnodi ac mae'r mwyafrif yn trefnu eu gwaith yn effeithiol mewn paragraffau. Maent yn defnyddio eu medrau llythrennedd yn effeithiol mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm. Ceir enghreifftiau da o ysgrifennu llythyrau, portread, rhestrau ac adroddiadau. Mae safonau llawysgrifen a chyflwyniad y disgyblion yn amrywiol, ac ar adegau gwelir gwaith blêr yn y llyfrau.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn gwersi mathemateg. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 2 maent bron i gyd yn adio ac yn tynnu'n gywir gan ddefnyddio degau ac unedau. Mae'r rhan fwyaf yn datrys problemau geiriol syml yn dda, er enghraifft wrth gyfri'r gost o deithio ar drên bach yr Wyddfa.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau disgyblion mewn gwersi mathemateg yn dda.  Erbyn diwedd y cyfnod, mae bron pob disgybl yn defnyddio ystod o fedrau rhif yn llwyddiannus.  Maent yn lluosi degolion ac yn adnabod y cysylltiad rhwng ffracsiynau, degolion a chanrannau.  Mae bron pob disgybl yn defnyddio eu medrau rhif yn hyderus o fewn cyd-destun datrys problemau.  Maent yn gwirio eu gwaith yn ofalus er mwyn sicrhau cywirdeb eu hatebion.  Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn ddigon cyson.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dros gyfnod o dair blynedd, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) a’r deilliant uwch (deilliant 6) o’i gymharu ag ysgolion tebyg wedi gosod yr ysgol yn gyson yn uwch na’r canolrif mewn medrau iaith a datblygiad mathemategol.

Yng nghyfnod allweddol 2, dros y tair blynedd ddiwethaf mae nifer y disgyblion wedi bod yn isel iawn.  O ganlyniad, nid yw’n bosibl dod i gasgliadau ystyrlon.  Mae canlyniadau un neu ddau ddisgybl ar adegau’n gallu dylanwadu llawer ar berfformiad y garfan gyfan.  Fodd bynnag, ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) o’i gymharu ag ysgolion tebyg wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf mewn dwy allan o’rtair blynedd.  Dros yr un cyfnod, mae perfformiad disgyblion sy’n cyrraedd y lefel uwch (lefel 5) wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a’r 25% isaf ym mhob pwnc.

Ar draws yr ysgol, nid oes patrwm arwyddocaol o wahaniaethau rhwng perfformiad disgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim o’u cymharu â gweddill y disgyblion.

**Lles:  Digonol**

Mae gan bron pob disgybl ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd bwyta’n iach achadw’n heini.  Maent yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus eu bod yn medru troi at unrhyw un am gymorth pe bai angen.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn dangos lefelau uchel o gymhelliant, diddordeb a balchder yn eu gwaith.  Maent yn ymdrin â phawb gyda pharch a chwrteisi.

Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen a’r rheini yng nghyfnod allweddol 2 yn gwneud penderfyniadau priodol am gynnwys themâu trwy drafodaeth a chreu mapiau meddwl syml.  Fodd bynnag, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yndibynnu’n ormodol ar arweiniad oedolion.  O ganlyniad, nid ydyntwedi datblygu digon o hyder i gymrydcyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain er mwyn datblygu’n ddysgwyr digon annibynnol.  Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan lawer ddealltwriaeth gadarn o’r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Mae llais y disgybl yn cael sylw haeddiannol ym mhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol.  Mae aelodau’r cyngor ysgol a’r cyngor eco yn frwdfrydig iawn, ac yn deall eu bod yn cynrychioli safbwynt disgyblion eraill ac yn ymfalchïo yn yr hyn y maent wedi ei gyflawni i wella eu hysgol; er enghraifft, maent wedi chwarae rhan amlwg wrth drafod gwerthoedd yr ysgol ac wedi dylanwadu’r polisi gwrth-fwlio.

Mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu'n dda atfywyd yn y gymuned leol. Maent yn cymryd rhan mewn cystadlaethau a gynhelir ganfusnesau lleol yn llwyddiannus, yn arddangos gwaith celf mewn siopau yn y pentref, ac yn addurno canolfan yr henoed bob Nadolig. Mae bron pob disgybl yn cyfrannu'n dda tuag at godi arian i gefnogi elusennau. Ycyngor ysgol sy'n dewis y brif elusen i'w noddi pob blwyddyn. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu iddatblygu medrau cymdeithasol disgyblion ac yn eu paratoi'n effeithiol ar gyferbywyd y tu allan i'r ysgol.

Er yn dangos gwelliant cyffredinol dros bedair blynedd, nid yw cyfradd presenoldeb yr ysgol wedi cynyddu i'r un graddau â chyfraddau presenoldeb cyfartalog holl ysgolion Cymru. Bu'r presenoldeb yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf, ond roedd yn y 25% isaf yn 2014. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynllunio amrywiaeth o brofiadau dysgu da sy'n bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Mae'r cynllunio manwl a chynhwysfawr yn diwallu anghenion rhan fwyaf y disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus trwy drefnu ymweliadau a gwahodd ymwelwyr i'r ysgol. Mae'r gweithgareddau allgyrsiol fel coginio, dawnsio gwerin a'r Urdd hefyd yn cyfrannu'n dda at brofiadau'r disgyblion.

Mae'r cynlluniau gwaith yn rhoi sylw priodol i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae'r athrawon yn gwerthuso'r cynlluniau yn gyson ac yn drwyadl er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad ym medrau'r disgyblion. Fodd bynnag, anghyson yw'r cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd a TGCh ar draws y cwricwlwm.

Mae staff prif ffrwd yr ysgol a staff y dosbarthiadau ar gyfer disgyblion ag anghenion ychwanegol dwys yn cydweithio'n effeithiol. Maent yn cynllunio ar y cyd er mwyn sicrhau mynediad llawn i'r cwricwlwm i bob disgybl. Mae'r trefniadau hyn yn llwyddiannus ac yn gryfder yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r Gymraeg yn llwyddiannus ac yn annog y disgyblion i'w defnyddio fel cyfrwng cyfathrebu yn barhaus. Mae hyrwyddo gwybodaeth y disgyblion am ddiwylliant a hanes Cymru yn amlwg ac yn ganolog i holl waith yr ysgol. Mae'r disgyblion yn dysgu chwedlau Cymreig, astudio gwaith artistiaid ac awduron o Gymru ac yn ymweld â llefydd hanesyddol pwysig. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn dangos balchder yn eu Cymreictod a'u hetifeddiaeth.

Mae'r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddysgu am ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth byd eang. Mae'r pwyllgor eco yn llwyddiannus wrth godi ymwybyddiaeth disgyblion am bwysigrwydd ailgylchu ac arbed ynni.

**Addysgu: Da**

Mae safon yr addysgu trwy'r ysgol yn gyson dda. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda a defnyddiant ystod eang o ddulliau addysgu ac adnoddau pwrpasol i gynorthwyo'r dysgu. Maent yn rhannu'r amcanion dysgu ac yn trafod meini prawf llwyddiant gyda'r disgyblion yn fedrus ac yn holi'n dreiddgar er mwyn ymestyn eu dealltwriaeth. Mae'r gwersi wedi eu cynllunio'n drwyadl ac mae cyfraniad staff cynorthwyol at ansawdd dysgu'r disgyblion yn sylweddol. Mae perthynas waith cadarnhaol yn bodoli rhwng yr oedolion a'r disgyblion ymhob dosbarth ac mae'r holl oedolion yn hyrwyddo Cymraeg cywir yn gyson.

Gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol o ystod o strategaethau asesu. Maent yn cynnig adborth llafar defnyddiol yn ystod gwersi. Maent yn marcio gwaith disgyblion yn drylwyr gan roi sylwadau adeiladol iddynt ar sut i wella'r gwaith, sy'n gysylltiedig â'r meini prawf llwyddiant. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn rhan allweddol o asesu eu gwaith eu hunain.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion gan gynnwys defnydd buddiol o brofion safonol ac asesiadau athrawon. Mae athrawon yn deall anghenion y disgyblion yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth i osod targedau penodol ac i ddarparu tasgau priodol er mwyn iddynt symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu.

Mae trefniadau addas ar gyfer adrodd i rieni am gynnydd a chyflawniad eu plant ac maent yn bodloni'r gofynion statudol yn llawn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, ofalgar a chynhwysol lle teimla'r disgyblion yn ddiogel. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a sut i fod yn ddiogel yn effeithiol. Cefnogir hyn yn dda drwy wersi addysg gorfforol, y siop ffrwythau a digwyddiadau fel yr "Wythnos Iachus."

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus drwy ddarparu gwasanaethau cydaddoli rheolaidd a thrwy weithgareddau'r cwricwlwm.

Mae'r cydweithio agos sy'n bodoli rhwng yr ysgol a gwasanaethau arbenigol yn sicrhau cymorth ac arweiniad o ansawdd da i ddisgyblion a rhieni. Mae'r cydweithio, gan gynnwys seicolegwyr a therapyddion lleferydd, wedi arwain at wella deilliannau carfan benodol o ddisgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae'r athrawon yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac yn sicrhaucefnogaeth fuddiol. Mae'r rhaglen ymyrraeth wedi ei datblygu'n dda ac mae'r trefniadau monitro yn sicrhau bod y disgyblion hyn yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu. Mae'r cynlluniau addysg unigol o ansawdd da a chaiff y cynlluniau eu hadolygu'n gyson mewn ymgynghoriad â'r rhieni.

Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos arbennig yn perthyn i Ysgol Cwm Derwen lle caiff pob unigolyn ei groesawu, ei barchu a'i gefnogi.  Enghraifft arbennig o hyn yw'r dosbarthiadau ar safle'r ysgol sy'n cynnig cefnogaeth effeithiol i ddisgyblion â phroblemau addysgol dwys.  Mae'r adnodd hwn yn rhan gwbl integredig o'r ysgol ac anogir pob disgybl i gyfranogi'n llawn yn ei chymuned.

Mae'r safle a'r adeilad yn gwbl hygyrch ac mae gwerthoedd ac amcanion yr ysgol yn arwain at werthfawrogi a dathlu amrywiaeth yn effeithiol.

Ceir ystod amrywiol o offer ac adnoddau o ansawdd da yn y dosbarthiadau ac yn yr ardaloedd chwarae allanol a chaiff y rhain eu defnyddio'n briodol.  Gwneir defnydd cynhwysfawr o'r ardal allanol yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae arddangosiadau symbylus a deniadol o gyflawniadau a llwyddiannau'r disgyblion yn yr ystafelloedd ac ar hyd y coridorau.  Mae'r rhain yn creu amgylchedd ddysgu ddiddorol ac yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol.  Maent hefyd yn ennyn balchder y disgyblion yn eu gwaith.

Mae'r gwaith o gynnal a chadw'r adeilad a'r tir yn dda ac mae'r ysgol yn defnyddio ei safle'n briodol.  Mae'r safle a'r adeilad yn gwbl ddiogel.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a disgwyliadau uchel. Mae'n rhannu'r rhain ynllwyddiannus gyda staff, rhieni, disgyblion a llywodraethwyr. Mae'r pennaeth yn darparuarweiniad clir a phwrpasol.  Caiff ei chefnogi'n dda gan yr uwch dîm rheoli a phob aelod o'r staff wrth sicrhaubod pob agwedd ar fywyd yr ysgol yn cael dylanwad cadarnhaol ar safonau a lles disgyblion.  Mae'r ysgol yn gymuned drefnus ac mae strwythurau a pholisïau clir yn eu lle ac yn cael eu gweithredu'n gyson ac effeithiol.

Mae cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac yncanolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau gwella.  Maent yn sicrhau bod y staff yn ymwybodolo'u cyfrifoldebau a'u rolau wrth gyflawni'r blaenoriaethau hynny.   Mae gan yr athrawonddisgrifiadau swydd manwl sy'n cysylltu'n dda â'u cyfrifoldebau unigol.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn darparu cefnogaeth briodol i fywyd a gwaith yr ysgol.  Maent yn deall data perfformiad yr ysgol yn briodol ac maent yn gwybod sut mae'n cymharu â data perfformiad ysgolion tebyg eraill.  Er eu bod wedi dechrau defnyddio'r wybodaeth hon i ddwyn yr ysgol i gyfrif yn fwy effeithiol, nid yw'r arfer hon wedi ei gwreiddio'n llawn hyd yma.

Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a’r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi’u sefydlu’n llwyddiannus ac maestrategaethau asesu ar gyfer dysgu yn cael eu gweithredu’n effeithiol ar draws yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol weithdrefn hunanarfarnu effeithiol, sydd wedi ei sefydlu’n llwyddiannus ym mywyd yr ysgol. Mae'r dadansoddiad o ddata yn rhan annatod o'r broses hon. Yn ogystal, casgla’r ysgol ystod eang o dystiolaeth yn effeithiol gan gynnwys arsylwadau dosbarth, craffu ar waith disgyblion, a gwrando ar safbwyntiau disgyblion, llywodraethwyr a rhieni. Mae'r gweithdrefnau hyn wedi helpu'r ysgol i ffurfio adroddiad hunanarfarnu defnyddiol sy’n adnabod yn glir ei chryfderau a'r meysydd y mae angen eu datblygu.

Mae cyswllt agos yn bodoli rhwng deilliannau’r weithdrefn hunanarfarnu â blaenoriaethau’r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun datblygu yn canolbwyntio’n dda ar godi safonau ac ehangu’r ddarpariaeth. Cyfeiria’r cynllun yn effeithiol at y camau i’w cymryd, y meini prawf llwyddiant, amseriad a’r unigolion sydd â chyfrifoldeb, yn ogystal â’r trefniadau monitro a chyllido. Mae'n cynnwys targedau mesuradwy buddiol mewn perthynas â chynnydd a gwelliannau mewn safonau disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r ysgol wedi sefydlu nifer o bartneriaethau effeithiol sy’n cyfrannu’n effeithiol tuag at wella ansawdd y ddarpariaeth a chyflawniad disgyblion.

Mae’r bartneriaeth â’r rhieni yn fuddiol ac maent yn gwerthfawrogi lefel y cymorth a’r gofal a gaiff eu plant. Mae’r ysgol yn cynnal gweithdai defnyddiol iddynt, i’w galluogi i chwarae rhan fwy canolog yn addysg eu plant; er enghraifft codi eu hymwybyddiaeth o faterion sy’n ymwneud â llythrennedd, rhifedd a diogelwch ar y we.

Mae cysylltiadau cryf yn bodoli â’r gymuned leol sy’n cyfoethogi profiadau dysgu’r disgyblion ymhellach. Er enghraifft,mae disgyblion yn ymweld yn gyson â’r parc lleol, y llyfrgell, a’r swyddfa bost, ac mae aelodau o’r gymuned fel yr heddwas a’r gweinidog yn ymweld â’r ysgol i rannu eu profiadau ac i addysgu disgyblion mewn meysydd penodol.

Mae’r cysylltiad agossy’n bodoli gyda’r cylch meithrin sydd ar safle’r ysgol yn hwyluso trefniadau derbyn disgyblion newydd. Gweithia’r ysgol yn agos gydag ysgolion eraill yr ardal er budd ei disgyblion. Mae trefniadau pontio effeithiol yn bodoli gyda’r ysgol uwchradd sy’n sicrhau dilyniant a pharhad ym mhrofiadau dysgu disgyblion wrth iddynt symud i’r cam nesaf yn eu haddysg. Rhan allweddol o hyn yw gwaith yr athro sy’n cydweithio rhwng ysgolion y dalgylch a’r ysgol uwchradd. Mae’r cydweithio llwyddiannus gydag ysgolion y clwstwr ar brosiect llythrennedd wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau ac agwedd y disgyblion tuag at ddarllen. Mae’r ysgol hefyd yn cydweithio’n effeithiol gydag ysgolion y clwstwr a’r ysgol uwchradd fel rhan o drefniadau’r awdurdod lleol i safoni a chymedroli gwaith disgyblion. Mae hyn yn sicrhau cywirdeb a chysondeb yn eu hasesiadau. Mae’r ysgol wedi sefydlu nifer o bartneriaethau cadarn gydag amryw o swyddogion yr awdurdod lleol ac asiantaethau arbenigol. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar les a chyrhaeddiad disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol nifer priodol o athrawon a staff cynorthwyol sydd â chymwysterau addas i addysgu'r cwricwlwm. Gwneir defnydd da o'u harbenigedd ac mae'r ymdeimlad o dîm addysgu yn nodwedd gref yn yr ysgol.

Mae prosesau rheoli perfformiad yr ysgol yn arwain yn effeithiol at ddatblygiad staff mewn meysydd priodol sy'n seiliedig ar flaenoriaethau gwella'r ysgol ynghyd â blaenoriaethau gwella penodol y staff. Mae'r ysgol yn gweithredu'n effeithiol fel cymuned ddysgu broffesiynol ac mae'r arfer o athrawon yn arsylwi ar ei gilydd wedi arwain at gysondeb yn ansawdd da'r addysgu. Maent yn cydweithio'n agos ag ysgolion eraill i rannu arfer dda.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llawn i ofynion statudol baich gwaith athrawon ac mae athrawon yn defnyddio eu hamser digyswllt yn briodol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.

Mae amrediad da o adnoddau yn yr ysgol ac maent yn cael eu rheoli yn dda i sicrhau mynediad llawn i bob agwedd o'r cwricwlwm. Mae hyn yn amlwg iawn yn y defnydd a wneir o'r ardal allanol.

Rheolir gwariant yn ofalus gan y pennaeth a'r corff llywodraethol. Dosrennir arian yn briodol ar gyfer blaenoriaethau'r ysgol ac mae defnydd effeithiol o'r grant amddifadedd i dargedu disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi arwain at godi safonau mewn iaith a mathemateg.

O ystyried y deilliannau da a'r defnydd darbodus o'r cyllid, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6762394 - Ysgol Gynradd Gymraeg Cwm Derwen**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 223 |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 13.8 |
| Grŵp PYD | 2 (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 30 | 30 | 32 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 96.7 | 93.3 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 30 | 30 | 32 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 96.7 | 96.7 | 96.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 36.7 | 50.0 | 40.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 30 | 30 | 32 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 96.7 | 96.7 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 40.0 | 46.7 | 40.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 30 | 30 | 32 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 96.7 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 33.3 | 56.7 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae llawer o garfanau bach iawn mewn llawer o'r blynyddoedd o ddata perfformiad Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer yr ysgol hon. Mewn achos felly, nid ydym yn cynnwys tabl data perfformiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 102 | 96 | 6 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 94% | 6% | |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 102 | 84 | 18 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 82% | 18% | |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 102 | 99 | 3 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 101 | 100 | 1 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 99% | 1% | |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 102 | 101 | 1 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 99% | 1% | |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 100 | 94 | 6 | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 94% | 6% | |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 102 | 99 | 3 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 97% | 3% | |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 101 | 101 | 0 | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 99 | 85 | 14 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 86% | 14% | |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 102 | 96 | 6 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 94% | 6% | |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 102 | 80 | 22 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 78% | 22% | |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 100 | 67 | 33 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 67% | 33% | |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 75 | 34 | 39 | 1 | 1 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 45% | 52% | 1% | 1% | | |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 74 | 54 | 17 | 2 | 1 | 1 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 73% | 23% | 3% | 1% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 75 | 55 | 20 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 74 | 46 | 27 | 1 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 62% | 36% | 1% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 69 | 24 | 44 | 1 | 0 | 6 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 35% | 64% | 1% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 73 | 38 | 35 | 0 | 0 | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 52% | 48% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 74 | 43 | 31 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 58% | 42% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 70 | 22 | 42 | 6 | 0 | 5 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 31% | 60% | 9% | 0% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 72 | 41 | 28 | 3 | 0 | 3 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 57% | 39% | 4% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 74 | 41 | 33 | 0 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 55% | 45% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 73 | 46 | 27 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 63% | 37% | 0% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 66 | 27 | 38 | 1 | 0 | 7 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 41% | 58% | 2% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 73 | 27 | 40 | 6 | 0 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 37% | 55% | 8% | 0% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 74 | 41 | 30 | 3 | 0 | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 55% | 41% | 4% | 0% | | |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 66 | 29 | 26 | 11 | 0 | 8 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 17% | 0% | | |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 74 | 38 | 36 | 0 | 0 | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 51% | 49% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 60 | 28 | 31 | 1 | 0 | 12 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 47% | 52% | 2% | 0% | | |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 74 | 39 | 33 | 2 | 0 | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 45% | 3% | 0% | | |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 73 | 32 | 37 | 3 | 1 | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 44% | 51% | 4% | 1% | | |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mervyn Jones | Arolygydd Cofnodol |
| David Davies | Arolygydd Tîm |
| Gwen Aubrey | Arolygydd Lleyg |
| Rhian Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Karthryn Matthews | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.